| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **01 MAWRTH 2011** |
| **TEITL** | **STRATEGAETH HYFFORDDI AELODAU** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu disgrifiadau o rôl a chyfrifoldebau aelodau a chymwyseddau ac ymddygiadau** |
| **ARWEINYDDION PORTFFOLIO** | **Cynghorydd J R Jones, Uwch Arweinydd Adnoddau; CynghoryddSimon Glyn, Arweinydd Portffolio Adnoddau Dynol** |
| **AWDURON** | **Dilys Phillips, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol; Carey Cartwright, Rheolwr Hyfforddi a Datblygu** |

1. Ar y 7fed o Fai, 2009 fe gymeradwyodd y Cyngor llawn strategaeth datblygu a hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer aelodau.

2. Datblygwyd *Gwerthoedd* y Cyngor yn dilyn ymgynghori gydag aelodau, staff a'r cyhoedd.

3. Y ddogfen nesaf i'w llunio oedd *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* ar gyfer holl aelodau'r Cyngor.

4. Datblygwyd *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* ychwanegol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.

5. Yn dilyn ymlaen o'r *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau*, datblygwyd dogfennau pellach yn manylu ar *Gymwyseddau ac Ymddygiadau* a ddisgwylir oddi wrth holl aelodau'r Cyngor. Gellir egluro'r gwahaniaeth rhwng y dogfennau hyn, fel a ganlyn :-

- *Rolau a chyfrifoldebau* sy'n disgrifio y swyddogaeth, h.y. beth yw'r tasgau i'w cyflawni.
- *Cymwyseddau* sy'n disgrifio'r sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau.
- *Ymddygiadau* sy'n disgrifio'r ffordd yr eir ati i gyflawni'r dasg a'r agwedd a ddangosir.

6. Lluniwyd dogfen *Cymwyseddau ac Ymddygiadau Craidd* ar gyfer holl aelodau'r Cyngor.

7. Yn ychwanegol, lluniwyd dogfen *Cymwyseddau ac Ymddygiadau* ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

8. Mabwysiadwyd yr holl ddogfennau uchod gan y Cyngor Llawn ar y 21fed o Ionawr 2010.

9. Yn ychwanegol at eu rôl a'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Cyngor ac aelodau'r Bwrdd, mae cyfrifoldebau ychwanegol gan *Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion*, ac *Aelodau Craffu.* Datblygwyd *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* perthnasol gan aelodau mewn sesiynau wedi eu hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yna, fe'i hanfonwyd i holl aelodau'r Cyngor am ymgynghoriad.

- Atodir yn Atodiad 1 y *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* ar gyfer *Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion*
- Atodir yn Atodiad 2 y *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* ar gyfer *Aelodau Craffu*

10. Yn ychwanegol at *Ddisgrifiadau Rôl a Chyfrifoldebau* ychwanegol ar gyfer *Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion*, ac *Aelodau Craffu*, datblygwyd *Cymwyseddau ac Ymddygiadau* ychwanegol. Gwnaethpwyd hyn gan aelodau perthnasol mewn gweithdai a hwyluswyd gan ymgynghorydd allanol.
Eto, fe'i hanfonwyd i holl aelodau'r Cyngor am ymgynghoriad.

- Atodir yn Atodiad 3 y *Cymwyseddau ac Ymddygiadau* ar gyfer *Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion*
- Atodir yn Atodiad 4 y *Cymwyseddau ac Ymddygiadau* ar gyfer *Aelodau Craffu*

11. Pwrpas y dogfennau yw gosod sylfaen neu feincnod o'r hyn y mae aelodau eu hunain wedi cytuno y byddai'r aelod delfrydol yn ei arddangos. Yn naturiol ni fydd pob aelod yn cyrraedd at pob elfen o'r safon, ond wrth ddogfennu'r disgwyliadau mae modd i bob aelodau gymharu ei gyrhaeddiad yn erbyn y disgwyliad. Mantais hynny yw y gellir wedyn dargedu rhaglen hyfforddi at lle mae'r angen mwyaf a sicrhau fod cynllun datblygu personol yn cael ei deilwra ar gyfer pob aelod unigol. Hefyd bydd y dogfennau yn ran o becyn ar gyfer 'darpar ymgeiswyr' er mwyn rhoi eglurdeb am ofynion y rôl a'r disgwyliadau ar unigolion.

12. Wedi i'r Cyngor fabwysiadu'r dogfennau, bwriedir symud ymlaen i edrych ar y ffordd o asesu anghenion datblygu aelodau yn erbyn y dogfennau. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar anghenion datblygu yr Arweinyddion Portffolio yn ystod 2011, fel cam cychwynol.

**ARGYMHELLIAD.**
13. Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r dogfennau atodol fel rhan o'r Strategaeth Hyfforddi Aelodau.

**<u>ATODIADAU:</u>**

**ATODIAD 1:** *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* ar gyfer *Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion*

**ATODIAD 2:** *Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau* ar gyfer *Aelodau Craffu*

**ATODIAD 3:** *Cymwyseddau ac Ymddygiadau* ar gyfer *Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion*

**ATODIAD 4:** *Cymwyseddau ac Ymddygiadau* ar gyfer *Aelodau Craffu*